Hawdd ei Ddeall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r deuddegfed cyfarfod ar 26 Mawrth 2025. Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sam Williams** - Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Simon Rose –** Anabledd Dysgu Cymru
- **Michael Allcock** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Emma Burton** – IMPACT: Improving Adult Care Together
- **Beth Rees** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Rhian Jones** – Drive
- **Gwen Anslow** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Rachel Stinchcombe** – Mirus
- **Sian Williams** –Cyngor Gwynedd
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Antony Leeson** – Cyngor Caerdydd

- **Gerraint Jones-Griffiths** – Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change
- **Michael Fullerton** – Cyflawni Gyda'n Gilydd
- **Kath Morgan** – IMPACT: Improving Adult Care Together
- **Jayne Tilley** – Gyrfa Cymru
- **Petra Kennedy** – MTIB
- **Nick Davies** – Gofalwr teuluol
- **Nicola Rogers** – Cyngor Sir Benfro
- **Angela Kenvyn** – Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change
- **Andrea Meek** – Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change



## Pobl a ddywedodd nad oedden nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- Steve Dimmick – Awen

## Gwybodaeth am y ddogfen yma




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen yma. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las drwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ar gyfer pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar dudalen 16.

## 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Williams** yn Aelod o'r Senedd a hi yw **cadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod.

## 2. Cyflwyniad am gyflogaeth a'r prosiect Engage to Change



Rhoddodd Gerraint Jones-Griffiths ac Andrea Meek gyflwyniad am y prosiect Engage to Change.



Helpodd y prosiect bobl ag anabledd dysgu i gael swyddi. Dywedon nhw ei fod yn gyfnod anodd i bobl ag anabledd dysgu.



Nid yw pawb eisiau neu'n gallu gweithio, ond dylai'r rhai sy'n gwneud hynny gael cefnogaeth.




Mae prosiect Engage to Change yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Siaradodd Gerraint ac Andrea am yr hyn a ddysgon nhw o'r prosiect.



Mae yna lawer o rwystrau i gyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu fel:

- Dim digon o gefnogaeth
- Dim digon o gyfleoedd i weithio
- Pobl sydd ddim yn meddwl y gallant weithio.




I newid hyn, mae angen i ni:

- Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau.
- Codi disgwyliadau.
- Rhoi mwy o ddewis i bobl.




Gall gwaith â thâl helpu pobl ag anabledd dysgu mewn sawl ffordd:

- Mwy o arian.
- iechyd a llesiant;
- Dysgu sgiliau newydd
- Gwneud ffrindiau.
- Mwy o reolaeth dros eich bywyd eich hun.



Yng Nghymru, rydyn ni'n meddwl bod tua 5 o bob 100 o oedolion ag anabledd dysgu yn gweithio.

Roedd Engage to Change yn brosiect partneriaeth 7 mlynedd a redwyd gan Anabledd Dysgu Cymru.



Roedd ganddo 2 ran:

- Cyflogaeth â chymorth a hyfforddiant swyddi.
- Interniaethau â chymorth. Dyma oedd y tro cyntaf i'r rhain gael eu cynnig yng Nghymru.



Roedd y prosiect ar gyfer pobl ifanc awtistig neu bobl ifanc ag anabledd dysgu nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.



Gweithiodd y prosiect gyda dros 1300 o bobl ifanc. Fe helpodd 41 o bob 100 o'r bobl ifanc hynny i gael gwaith. Mae hyn yn llawer gwell na 5 allan o 100.




Mae hyfforddwyr swyddi yn:

- Helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith.
- Cefnogi pobl i ddod o hyd i swydd a dysgu amdani.
- Helpu pobl i gadw eu swyddi.
- Helpu cyflogwyr i wneud newidiadau i gefnogi pobl.




Mae angen help ar bobl i ddysgu am ddewisiadau swyddi a beth sy'n addas iddyn nhw. Dylai'r gefnogaeth hon ddechrau'n gynharach mewn ysgolion.





Gwnaeth Andrea a Gerraint y gwaith ymchwil yn hygyrch. Fe wnaethon nhw greu adroddiadau hawdd eu darllen a fideos byr.



Dangosodd yr ymchwil:

- Roedd pobl yn fwy tebygol o gael swydd ar ôl lleoliadau gwaith hirach.
- Mae angen i hyfforddwyr swyddi roi'r gefnogaeth gywir i bob person i'w helpu i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.
- Mae angen profiad gwaith ar bobl ifanc tra yn yr ysgol neu'r coleg. Mae hyn yn eu helpu i feddwl am swyddi ar gyfer y dyfodol.
- Os telir am leoliadau ac os trefnir hwy, bydd mwy o bobl ifanc yn cael swyddi.



Helpodd y prosiect Engage to Change i greu strategaeth hyfforddi swyddi genedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r strategaeth hon yn helpu pobl ag anabledd dysgu i gael a chadw swyddi. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyngor ar wella hyfforddiant a chymorth swyddi.




Dywedodd Prif Weinidog Cymru y bydd pethau a ddysgon nhw o'r prosiect Engage to Change yn helpu i lunio polisïau yn y dyfodol.




O 2027 ymlaen bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant swyddi fel rhan o raglen cymorth cyflogaeth newydd.



Dywedodd Gerraint ac Andrea fod y prosiect yn dod i ben ond bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael y gefnogaeth gywir i gael swyddi â thâl.

## 3. Cwestiynau a syniadau




Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau..

## Cyflogaeth a byw â chymorth



Dywedodd Nick Davies, rhiant, fod ei fab wedi bod yn gwirfoddoli ac mae bellach eisiau gwaith â thâl.

Gofynnodd a oedd unrhyw un yn gweithio gyda darparwyr byw â chymorth i helpu pobl ag anabledd dysgu i gael gwaith â thâl.



Esboniodd Rachel Stinchcombe o Mirus fod Mirus wedi cyflogi 2 **lysgennad** am bron i flwyddyn.



Mae **llysgennad** yw rhywun sy'n hyrwyddo rhywbeth. Gallai hyn fod yn dweud wrth bobl am wasanaeth neu sefydliad.



Mae'r **llysgenhadon** yn cael eu talu'n fisol am eu gwaith. Mae gan y gwaith lawer o wahanol rannau ac mae'n cyd-fynd â'u sgiliau.




Siaradodd Rachel am yr her o gydbwyso budd-daliadau â gwaith â thâl. Cymerodd lawer o waith i drefnu oriau a thâl **llysgenhadon**.

## Mynediad at Waith



Defnyddiodd Mirus arian Mynediad at Waith gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU hefyd i dalu costau cludiant.



Siaradodd Wayne Crocker o Mencap Cymru am y problemau gyda Mynediad at Waith. Mae Mynediad at Waith yn helpu i dalu am gefnogwr, ond nid yw'n talu'r gost pan fydd y person sy'n cael ei gefnogi’n sâl neu ar wyliau.

## Cyflogaeth a gwasanaethau dydd



Dywedodd Wayne hefyd nad yw pawb ag anabledd dysgu yn gallu neu eisiau gwneud gwaith â thâl. Mae'n poeni am ddyfodol gwasanaethau dydd yng Nghymru a'r ffocws ar gyflogaeth.



Dywedodd fod rhai pobl yn credu mai cyflogaeth dylai fod dewis cyntaf **pob un** person ag anabledd dysgu. Yn enwedig gyda rhai gwasanaethau dydd yn cau. Dywedodd fod hyn yn bryder i bobl ag anghenion cymhleth neu oedolion hŷn nad ydyn nhw efallai eisiau neu'n gallu gweithio.



Gofynnodd Wayne a allai'r grŵp ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael gwybod eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau dydd ledled Cymru.



Cytunodd Andrea a Gerraint y dylai cyflogaeth fod yn opsiwn ond nid yw pawb ag anabledd dysgu eisiau gweithio neu'n gallu gweithio.



Mae llawer o bobl ifanc sy'n barod i weithio yn dal i gael gwybod bod angen mwy o amser arnyn nhw. Nid yw rhai teuluoedd yn credu bod eu plant yn barod i weithio.




Cytunodd y grŵp ei bod hi'n bwysig cynnig cyflogaeth a dewisiadau eraill, fel gwirfoddoli.



Mae Sioned yn poeni bod rhai gwasanaethau cymorth yn cael eu colli oherwydd y ffocws ar gyflogaeth. Bydd Sioned yn ysgrifennu at y Gweinidog i gael gwybod beth sy'n digwydd gyda gwasanaethau dydd a chyflogaeth â chymorth.

## Byw â chymorth, cyflogaeth a budd-daliadau




Siaradodd Petra Kennedy o MTIB am fyw â chymorth a sut mae'n gysylltiedig â budd-daliadau.



Dywedodd na ddylai pobl sy'n gweithio tra eu bod yn byw â chymorth golli eu budd-daliadau na'u tai.



Dylai cymorth fod ar gael i bawb sydd angen help i fyw, boed yn gallu gweithio ai peidio.

# 4. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol



Sam Williams o Anabledd Dysgu Cymru yw **cyd-ysgrifennydd** y Grŵp Trawsbleidiol gyda Sara Pickard o Mencap Cymru.



**Ysgrifennydd** neu **gyd-ysgrifenydd**
Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Cyd-ysgrifenyddion yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.



Ni allai Sara ddod i'r cyfarfod gan ei bod wedi cael llawdriniaeth.





Esboniodd Sam fod rhaid i'r grŵp bleidleisio dros y **cyd-ysgrifenyddion** a'r **cadeirydd** am y 12 mis nesaf. Pleidleisiodd y grŵp dros Sam a Sarah i barhau fel **cyd-ysgrifenyddion**.



Yna pleidleisiodd y grŵp dros Sioned Williams i barhau fel **cadeirydd** y grŵp am y 12 mis nesaf.



Bydd Sam yn ysgrifennu adroddiad blynyddol y grŵp ac yn ei anfon i'r Senedd.




Bydd yr adroddiad yn rhestru'r 4 cyfarfod a gafodd y grŵp yn ystod y 12 mis diwethaf, pwy aeth i'r cyfarfodydd a beth oedd y trafodaethau.

## 5. Unrhyw fater arall



Dywedodd Sioned ei bod hi'n mynd i siarad â'r Gweinidog Jane Hutt am gynhwysiant digidol eto.



Dywedodd hefyd ei bod hi'n dal i aros am atebion gan Weinidogion i'r llythyrau a ysgrifennodd ar ôl y cyfarfod diwethaf.

## Blychau dosette




Siaradodd Sion Jones am feddyginiaeth **blychau dosette** neu becynnau swigod.

> Mae **blychau dosette** yn helpu pobl i gymryd y feddyginiaeth gywir ar y diwrnod cywir ar yr amser cywir.



Maen nhw'n helpu pobl i wybod pa feddyginiaethau i'w cymryd a phryd. Gallant hefyd helpu pobl sy'n cael anhawster defnyddio eu dwylo.




Rhaid i rai pobl dalu nawr i gael eu meddyginiaeth yn y blychau hyn. Hyd yn oed os nad oedd yn rhaid iddyn nhw dalu o'r blaen.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddarganfod pam mae pobl bellach yn gorfod talu am y blychau hyn.

# 6. Y cyfarfod nesaf




Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **18 Mehefin 2025** am 12.15 – 1.15pm.

Bydd y cyfarfod yn dathlu Wythnos Anabledd Dysgu.

Dylai unrhyw un sydd â syniadau ar gyfer y cyfarfod anfon e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk.




Diolchodd Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod.

Diolchodd Sam i Andrea a Gerraint am eu cyflwyniad.




Gallwch ddod o hyd i fersiynau hawdd eu darllen o holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/

# Geiriau anodd

## Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Llysgennad

Llysgennad yw rhywun sy'n hyrwyddo rhywbeth. Gallai hyn fod yn dweud wrth bobl am wasanaeth neu sefydliad.

## Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifenydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Cyd-ysgrifenyddion yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

## Blwch dosette

Mae blwch dosette yn helpu pobl i gymryd y feddyginiaeth gywir ar y diwrnod cywir ar yr amser cywir.